

JONES, JOHN (1796 - 1857), pregethwr amlwg a grymus neilltuol, a gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd

Enw: John Jones

Dyddiad geni: 1796

Dyddiad marw: 1857

Priod: Frances Jones (née Edwards)

Plentyn: Gwen Davies (née Jones)

Plentyn: David Lloyd Jones

Rhiant: Elen Jones

Rhiant: John Jones

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: pregethwr amlwg a grymus neilltuol, a gweinidog gyda'r Methodistiaid Calфинаidd

Maes gweithgaredd: Crefydd

Awdur: Gwilym Arthur Edwards

Ganwyd 1 Mawrth 1796, yn Nhanycastell, Dolwyddelan, yn fab i John ac Elen Jones, a brawd [David Jones](#), Treborth. Collodd ei dad pan yn 12 oed. Dylanwadodd diwygiad Beddgelert (1819) arno ac ymunodd â chrefyddwyr yn Llangernyw; bu'n gweithio ar y ffordd fawr rhwng Capel Curig a Llyn Ogwen ac wedyn mewn chwarel yn Nhrefriw. Dechreuodd bregethu yn 1821; ni bu mewn ysgol o gwbl, eithr cafodd ychydig hyfforddiant gan [Evan Evans](#) ('Ieuan Glan Geirionnydd') yn Nhrefriw. Yn 1822 derbyniwyd ef yn aelod o gyfarfod misol Sir Feirionnydd yn y Bala. Yn 1823 aeth i weithio yn chwarel Talysarn a Llanllyfni, ac yn 27 oed priododd Fanny Edwards; yn 1824 gadawodd y chwarel am siop ei briod. Cyn diwedd ei oes, 1850-2, prynodd gydag eraill chwarel Dorothea yn ardal Talysarn. Yn 1824 derbyniwyd ef yn aelod o'r gymdeithasfa a'i ordeinio yn 1829, a bu ar y maes am 28 mlynedd wedyn ymhlith y grymusaf o bregethwyr a gafodd Cymru erioed. Dywedir iddo gychwyn dull newydd o bregethu gyda phwyslais arbennig ar yr ymarferol yn hytrach na'r athrawiaethol, a nodwedd arbennig ei bregethu oedd nerth - nerth meddwl, nerth ymadrodd, nerth argyhoeddiad ac ymgysgriad. Er na chafodd ddiwrnod o ysgol casglodd lawer iawn o wybodaeth; yr oedd yn gerddor rhagorol ac yr oedd ei lais gwych a'i gorff lluniaidd yn help mawr iddo yn ei weinidogaeth. Bu farw 16 Awst 1857; claddwyd yn Llanllyfni - y mae colofn ar ei fedd.

Gweler hefyd yr erthygl am ei hen nain [Angharad James](#).

Awdur

Y Parchedig Gwilym Arthur Edwards, (1881 - 1963)

Ffynonellau

David Jones, Owen Thomas, John Parry, [Cofiant y Parchedig John Jones, Talysarn \(Efrog Newydd 1868\)](#)

Darllen Pellach

Thomas Jones, *Pregethwr y bobl, neu, Fyfyrdodau a achlysurwyd gan farwolaeth y Parch. John Jones, Tal-y-sarn* (Wyddgrug 1858)

John Jones, Griffith Parry (gol.), *Pregethau y diweddar Barch. John Jones, Tal-y-sarn: gyda rhagdraeth gan y golygydd* (Dinbych 1869)

Owen Thomas, *Y pulpod Cymreig: allan o gofiant y Parch. John Jones, Talsarn* (Wrexham 1889)

Hugh Hughes, *Cofiant John Jones, Talsarn* (Pwllheli c.1860)

Owain Llewelyn Owain, Owen Griffith Owen, *Cofiant Mrs. Fanny Jones, gweddw y diweddar Barch. J. Jones, Talsarn* (Machynlleth 1907)

Erthygl Wicipedia: [John Jones, Talysarn](#)

Delweddau

LIGC: [Parch. John Jones Talysarn](#)

Robinson & Thompson, [John Jones of Talysarn](#)

Robinson & Thompson, [John Jones of Talysarn](#)

Hugh J. Hughes, [John Jones, Talysarn](#)


E. Williams, [Parch. John Jones, Talysarn](#)

LIGC: [Fanny Jones](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q6242001](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

